**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-2248-20

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mike

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 1 Mehefin, ymrwymais i ddiweddaru pwyllgorau'r Senedd ar y cynnydd wnaed ar ddyfodol prisio carbon yn y DU ar ôl ymadael â'r UE a'r safbwynt polisi ar y cyd a drafodwyd rhwng y Llywodraeth a phedair cenedl y DU. Byddaf yn esbonio'r broses o ddatblygu'r polisi, yn darparu trosolwg o'i ddyluniad gan gynnwys y ddeddfwriaeth a'r strwythurau llywodraethu a fydd yn sail iddo, ac yn awgrymu sut y gall fy swyddogion a minnau helpu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar y polisi hwn.

Mae diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys lleihau allyriadau a newid hinsawdd, yn faterion datganoledig. O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, roedd angen sicrhau ein bod yn parhau i gymell datgarboneiddio diwydiannol. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Gweinidogion cyfatebol eraill ar draws y DU i ddatblygu Fframwaith Cyffredin i ddisodli System Masnachu Allyriadau (ETS) yr UE. Nid yw Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 yn darparu pwerau digonol i sefydlu system ddeddfwriaethol newydd. Felly, penderfynodd y pedair Llywodraeth i gyd-sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) gan ddefnyddio'r pwerau presennol o dan Ran 3 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Roedd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cyd yn 2019 wedi ceisio barn ar gynigion i gymhwyso ETS y DU ar ôl y cyfnod pontio, gyda'r cyfnod deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2021. Bydd yn adlewyrchu dyluniad ETS yr UE, i sicrhau bod busnesau yn gallu trosglwyddo'n ddidrafferth ac yn hwyluso cysylltiad ag ETS yr UE cyn gynted â daethpwyd i gytundeb yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Roedd ymateb rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad o blaid ETS y DU, yn enwedig un sy'n gysylltiedig ag ETS yr UE. Roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn cefnogi sefydlu cynllun masnachu cysylltiedig hefyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers yr ymgynghoriad, mae'r pedair Llywodraeth wedi parhau i ddatblygu'r agweddau technegol ar ddyluniad polisi ETS y DU a ddisgrifir yn yr Ymateb Llywodraethol ar y Cyd a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin. Mae dyluniad y polisi yn taro cydbwysedd rhwng yr heriau o ran sicrhau integredd amgylcheddol a rheoli materion o ran cystadleurwydd busnesau. Mae hyn yn hanfodol bwysig yng Nghymru gan fod y sector masnachu yn gyfrifol am ryw 46% o'n hallyriadau ac yn cynnwys rhai o'n cyflogwyr mwyaf. Mae'r ddogfen i'w gweld yma: https://gov.wales/future-uk-carbon-pricing.

Bydd ETS y DU yn cyd-fynd yn agos ag ETS yr UE ar y cychwyn. Mae'n berthnasol i'r un sectorau masnachu ac mae'n gosod yr un rhwymedigaethau ar gyfranwyr i fonitro allyriadau ac adrodd arnynt, ac ildio nifer cyfwerth o lwfansau. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer dyraniad am ddim sy'n dilyn dull a meini prawf cymhwystra'r UE, a sicrhau bod rôl cydymffurfio a gorfodi rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau.

Mae gwahaniaethau, fodd bynnag, rhwng ETS y DU a system yr UE. Bydd cap cychwynnol ETS yr UE yn cael ei osod 5% yn llai na chyfran tybiannol y DU o gap ETS yr UE, a bydd yn cael ei adolygu ar ôl cael cyngor pellach ar y llwybr i 2050, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n nod cyffredin o gyflawni allyriadau sero net ar draws y DU erbyn 2050. Bydd hefyd fecanweithiau i reoli prisiau hynod o uchel ac isel, gan gynnwys pris cadw arwerthiant wedi'i osod yn £15 y lwfans.

Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, sy'n sefydlu ETS y DU ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer elfennau allweddol o'r polisi, yn cael ei osod gerbron y Senedd heddiw a bydd y pedair deddfwrfa yn craffu arno o fewn yr un cyfnod amser. Rhaid i'r Gorchymyn cael ei gymeradwyo gan y Senedd, a bydd dadl yn cael ei threfnu ar gyfer wythnos gyntaf mis Tachwedd. Bydd Gorchymyn pellach a ddefnyddia'r weithdrefn negyddol, sy'n mynd i'r afael â rhai o fanylion technegol y cynllun, yn cael ei ddwyn ymlaen tuag at ddiwedd 2020.

Yn ddiweddar, gwnaeth y Senedd gydsynio i bwerau sy'n galluogi arwerthu lwfansau allyriadau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Cyllid Llywodraeth y DU[1]. Bydd Llywodraeth y DU yn dwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth maes o law i sefydlu'r trefniadau manwl ar gyfer arwerthu.

Mae ETS y DU yn rhan o Raglen y Fframwaith Cyffredin a oruchwylir y Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar Drafodaethau'r UE (JMC(EN)) ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio'r egwyddorion a nododd ym mis Hydref 2017. Bydd Cytundeb Amlinellol yn nodi'r sail resymegol dros sefydlu'r fframwaith a'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu. Bydd concordat rhwng Gweinidogion y pedair llywodraeth yn mynd gydag ef. Byddaf yn rhannu'r dogfennau hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddant yn barod a chyn y cânt eu cyflwyno i'r JMC(EN) er mwyn iddo graffu arnynt.

Rwy'n awyddus i gefnogi'r gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth a'r fframwaith ehangach, a byddaf yn barod iawn i ddarparu tystiolaeth. Mae fy swyddogion hefyd ar gael i ddarparu trosolwg technegol o'r fframwaith a manylion y ddeddfwriaeth pe bai hynny'n ddefnyddiol ichi.

---

[1] Pan gyflwynwyd y Bil yng Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2020, y ddarpariaeth berthnasol oedd cymal 93 (Ffi ar gyfer dyrannu lwfansau o dan gynllun masnachu lleihau allyriadau). Diwygiwyd y Bil gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, a daeth cymal 93 yn gymal 94. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Gorffennaf 2020, a daeth cymal 94 yn gymal 96. Er bod rhifau'r cymal wedi newid, nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u gwneud i'w sylwedd ers iddo gael ei gyflwyno. Mae cofnod o'r Bil i'w weld yma: https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/finance/documents.html.

Rwy’n ymwybodol y bydd gan bwyllgorau eraill ddiddordeb yn y fframwaith hwn. O ganlyniad, awgrymaf fod fy swyddogion yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau ar gyfer sicrhau proses graffu effeithlon.

Mae ETS y DU yn bolisi technegol gymhleth, ond mae ganddo oblygiadau pwysig i’n polisi hinsawdd a’n sylfaen ddiwydiannol. Edrychaf ymlaen at drafod â chi yn ystod y gwaith craffu ar ETS y DU.

Byddaf yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Pwyllgor Busnes.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs